

## ASESIAD RISG LLYWODRAETH CYMRU

<b>Teitl yr Asesiad Risg:</b>	<b>Gweithio gartref yn ystod Cyfnod Adfer COVID-19 – Cam pontio</b>
<b>Rhif yr Asesiad Risg:</b>	<b>ARC Rhif 8 Llywodraeth Cymru</b>

**Mae'r Asesiad Risg Cyffredinol hwn yn berthnasol i holl staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio gartref ar gyngor Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod o 24 Mawrth 2020 mewn ymateb i'r achos COVID-19. Mae'n cwmpasu ystod o weithgareddau cyffredin, a gallai rhai neu'r cyfan ohonynt fod yn berthnasol i staff. Uned lechyd a Diogelwch Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am yr asesiad risg ac mae'n cael ei adolygu'n flynyddol mewn ymgynghoriad â Chydgysylltwyr lechyd a Diogelwch Adrannol Llywodraeth Cymru ac Ochr yr Undebau Llafur. Mae pob asesiad risg cyffredinol yn cael ei gadw ar fewnwyd Llywodraeth Cymru.**

**DS Mae'r asesiad risg hwn yn darparu gwybodaeth ychwanegol i'r Asesiad Risg Cyffredinol sydd eisoes yn bodoli ar gyfer Gweithio Gartref neu Gweithio'n Glyfar.**

Os oes perygl newydd neu risg uwch yn cael ei ganfod ar gyfer gweithgaredd y tu allan i'r peryglon cyffredinol yna mae'n rhaid i'r person dan sylw gynnal yr asesiad risg pwrpasol ar ddiwedd y ffurflen hon, ar y cyd â ac wedi'i gymeradwyo gan reolwyr llinell. Yna, mae'n rhaid cadw'r asesiad risg yng nghofnodion iShare yr Is-adran.

Beth yw'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd?	Pwy allai gael eu niweidio a sut?	Beth ddylem fod yn ei wneud eisoes i leihau'r risg?	GWERTHUSO'R RISG *gan ddefnyddio'r tabl yn Atodiad A			Unrhyw gamau pellach a allai leihau'r risg?	Camau gweithredu gan: Pwy/Pryd/ Cwblhawyd	AIL-WERTHUSO'R RISG *gan ddefnyddio'r tabl yn Atodiad A		
			T	D	TxD			T	D	TxD
Problemau cyhyrsgerbydol a allai gael eu profi gan staff sy'n gweithio gartref gyda gliniaduron a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ond heb y gosodiad neu'r offer cywir	Pob aelod o staff sy'n gweithio gartref.	Darparu cyngor a chanllawiau i'r holl staff ar weithio gartref (Mawrth 2020): <ul style="list-style-type: none"> <li>• Canllawiau ar Weithio ar eich Pen eich Hun</li> <li>• Canllawiau ar y Labordy Dysgu, llwyfan e-ddysgu Cardinus a thrwy rwydweithiau lechyd a Diogelwch ar ymestyn, bwyta'n iach ac ati</li> <li>• Canllawiau ar arweinyddiaeth wrth weithio gartref</li> <li>• Canllawiau ar weithio gartref a llesiant</li> </ul>	4	3	12	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gall unrhyw aelod staff sy'n dymuno gweithio mewn swyddfa am resymau llesiant wneud hynny ond rhaid iddo roi gwybod i'w reolwr llinell a'r Dirprwy Weinidog er mwyn gallu monitro lefelau defnydd swyddfeydd</li> <li>• Ystyried darparu argraffwyr, peiriannau rhwygo papur a deunydd swyddfa cysylltiedig ar gyfer gweithio gartref.</li> </ul>	Cyfathrebu mewnol i hysbysu staff fel rhan o ymgyrch gyfathrebu pryd fydd swyddfeydd yn agor	2	2	4

		<p>Darparu dodrefn a chyfarpar yn y cartref:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu trefniadau i ddarparu cadeiriau a desgiau i'r rhai sydd eu hangen wrth i weithio gartref barhau i gael ei ddatblygu</li> <li>• Trefniadau wedi'u cyflwyno i unigolion brynu ategolion TG a chael ad-daliad</li> <li>• Trefniadau i ddarparu codwyr gliniaduron a gorffwyswyr traed i'r rhai sydd eu hangen wrth i staff barhau i weithio gartref</li> <li>• Gallai unigolion gasglu eitemau hanfodol ar gyfer gwaith drwy gysylltu â Rheolwyr Cyfleusterau Lleol i wneud trefniadau.</li> </ul>								
Risgiau penodol yn gysylltiedig â gweithio gartref i'r rhai sydd angen addasiadau ffisegol neu TGCh rhesymol	Staff sy'n gweithio gartref sydd angen cyfarpar arbenigol (a elwir yn addasiadau yn y gweithle cyfredol a'r rhai sy'n codi yn ystod y cyfnod o weithio gartref).	<p>Yn ogystal â chyngor a darpariaeth fel yr uchod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu addasiadau ffisegol a/neu TGCh ac addasiadau sy'n benodol i anghenion aelodau staff unigol</li> <li>• Pan fo angen rhywun am addasiadau wedi newid neu fod angen newydd wedi'i nodi a bod y Tîm Addasiadau yn y Gweithle'n argymhell cadair arbenigol yn dilyn asesiad DSE ar-lein, gallant gasglu cadair lle bo'n bosibl neu, os na, gellir ei danfon i'r aelod staff</li> <li>• Pan fydd gan staff anabl gadeiriau arbenigol mewn swyddfa ond nad ydynt yn gallu</li> </ul>	3	3	9	<p>Pe bai cyflwr rhywun yn dangos bod angen desg drwy asesiad DSE rhithwir a gynhaliwyd gan y Tîm Addasiadau yn y Gweithle, bydd yn cael ei darparu. Unwaith y bydd y cyfyngiadau symud yn cael eu llacio bydd y ddesg yn cael ei danfon i gartref yr aelod staff. Os na fydd lle i'r ddesg yng nghartref yr unigolyn, efallai y bydd angen iddo weithio mewn swyddfa am resymau llesiant oni bai bod modd gwneud trefniadau eraill. Bydd unrhyw achosion yn cael eu hystyried fesul achos.</p> <p>Gall unrhyw aelod staff sy'n</p>	Tîm Addasiadau yn y Gweithle i gynghori.	2	2	4
						Gall unrhyw aelod staff sy'n	Cyfathrebu			

		eu casglu oherwydd eu nam, dyliid eu danfon i'r aelod staff.				dymuno gweithio mewn swyddfa am resymau llesiant wneud hynny ond mae'n rhaid iddo roi gwybod i'w reolwr llinell a'r Dirprwy Reolwr er mwyn gallu monitro lefelau defnydd swyddfeydd.	mewnol i hysbysu staff fel rhan o ymgyrch gyfathrebu pryd fydd swyddfeydd yn ailagor			
Risgiau i lesiant meddyliol yn deillio o weithio gartref neu o orbryder yn gysylltiedig â COVID-19	Gall pob aelod o staff sy'n gweithio gartref deimlo'n unig, ar eu pen eu hunain, yn rhwystredig neu fod mewn galar neu'n profi problemau iechyd meddwl	Darparu cyngor a chanllawiau ar iechyd meddwl a llesiant i'r holl staff mewn perthynas â gweithio gartref: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Wedi cyhoeddi canllaw ar weithio ar eich pen eich hun</li> <li>• Eitemau newyddion mewnol ar sicrhau bod eich llesiant meddyliol yn y cyflwr gorau posibl a dolenni i gyngor a chanllawiau gan Mind ac Anxiety UK ar dudalennau llesiant y fewnrwyd</li> <li>• Cylchlythyron rheolaidd gan rwydwaith staff Materion y Meddwl</li> <li>• Eitemau newyddion mewnol i reolwyr llinell ar gefnogi cydweithwyr â phroblemau iechyd meddwl a gorbryder</li> <li>• Cymorth penodol gan Dîm Cyngori Achosion AD a'r tîm Iechyd Galwedigaethol</li> <li>• Cymorth drwy'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr (EAP) ar gael 24 y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn (ar unrhyw fater)</li> <li>• Cymorth wedi'i deilwra gan EAP ar gyfer timau penodol sy'n</li> </ul>	3	3	9	Gall unrhyw aelod staff sy'n dymuno gweithio mewn swyddfa am resymau llesiant wneud hynny ond mae'n rhaid iddo roi gwybod i'w reolwr llinell a'r Dirprwy Reolwr er mwyn gallu monitro lefelau defnydd swyddfeydd.	Cyfathrebu mewnol i hysbysu staff fel rhan o ymgyrch gyfathrebu pryd fydd swyddfeydd yn ailagor	2	2	4

		<p>ymdrin â sefyllfaoedd anodd neu drawmatig</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymorth digwyddiadau critigol EAP ar gyfer unigolion mewn tîm penodol (er enghraifft, ond heb ei gyfyngu i, adeg profedigaeth)</li> <li>• Negeseuon gan yr Ysgrifennydd Parhaol i uwch staff ynghylch cefnogi staff, yn cynnwys cyfeiriad at iechyd a llesiant meddyliol</li> <li>• Pecyn canllaw diwygiedig ar Brofedigaeth wedi'i anfon i'r holl uwch staff.</li> </ul>								
Mwy o risg o gam-drin domestig a thrais rhywiol	Yr holl staff, yn enwedig y rhai sydd eisoes wedi profi hyn neu achosion newydd yn sgil ynysigrwydd cymdeithasol a gweithio gartref o hyd. Risg ychwanegol i'r rhai sy'n briod neu sydd mewn perthynas ag aelod arall o staff: gall staff fod yn ddioddefwyr	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Canllawiau sefydledig ar gael eisoes</li> <li>• Canllawiau a Chwestiynau Cyffredin Coronafeirws AD ychwanegol wedi'u dosbarthu i'r holl staff</li> <li>• Negeseuon rheolaidd i'w hanfon i'r holl staff i roi cyhoeddusrwydd i'r cyngor a'r cymorth sydd ar gael</li> </ul>	3	4	12	Gall unrhyw aelod o staff sy'n dymuno gweithio mewn swyddfa am resymau llesiant wneud hynny ond mae'n rhaid iddo roi gwybod i'w reolwr llinell a'r Dirprwy Reolwr er mwyn gallu monitro lefelau defnydd swyddfeydd.	Cyfathrebu mewnol i hysbysu staff fel rhan o ymgyrch gyfathrebu pryd fydd swyddfeydd yn ailagor	2	2	<b>4</b>

	neu'n gyflawnwyr neu'r ddau									
Risg o ddod i gysylltiad â rhywun sydd â COVID-19 wrth gymudo	Unrhyw staff sy'n teithio i swyddfa neu ar fusnes Llywodraeth Cymru; mwy o risg i staff sy'n wynebu risg uwch o COVID-19	Darparu cyngor ar opsiynau teithio mwy diogel: <ul style="list-style-type: none"> <li>• ystyried beicio neu gerdded os oes modd, os oes rhaid mynd i'r swyddfa</li> <li>• defnyddio trafndiaeth gyhoeddus os oes rhaid mynd i'r swyddfa ac nad oes opsiynau eraill ar gael, ond cadw pellter cymdeithasol</li> <li>• defnyddio gorchuddiadau wyneb tair haen os nad yw hi'n bosibl cadw pellter cymdeithasol</li> <li>• parhau i weithio gartref lle bynnag y bo'n bosibl fel y dewis diofyn neu a ffafir i'r holl staff oni bai fod yna achos busnes neu lesiant cryf i fod yn y swyddfa</li> <li>• y penderfyniad i weithio yn y swyddfa (o hyd neu weithiau) neu barhau i weithio gartref i fod yn seiliedig ar amgylchiadau personol yn ogystal ag angen busnes, gan gofio'n arbennig am y rhai sydd mewn mwy o risg (e.e. y rhai sy'n wynebu risg uwch o COVID-19, y rhai sy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus a'r rhai sy'n wynebu risg uwch <b>ac</b> yn dibynnu ar drafndiaeth gyhoeddus).</li> </ul>	2	3	6					
Profedigaeth yn sgil COVID-19 neu salwch arall. Y risg	Pob aelod o staff sy'n gweithio	Trefniadau ar waith i'r Tîm Cyngori Achosion ddarparu cymorth a chyngor dros y ffôn a/neu ar-lein	1	3	3					

na all unigolion gael mynediad at y cymorth a'r gefnogaeth gyffredinol y byddai cydweithwyr a chyflogwr yn gallu eu cynnig fel arfer	gartref	pan fydd rhywun wedi cael profedigaeth								
Risg bod gweithio gartref yn cael effeithiau negyddol ar rai staff yn sgil rhyngweithio anarferol rhwng bywyd gwaith a bywyd y cartref  E.e. <ul style="list-style-type: none"> <li>• llai o gydlyniant gweithle yn sgil gweithio o bell</li> <li>• effeithiau negyddol ar staff sy'n gorfod gweithio gartref pan fyddent yn dewis peidio â gwneud</li> <li>• rhagfarn ddiarwybod yn codi yn sgil canfyddiadau o amgylcheddau cartref</li> </ul>	Pob aelod staff, gyda mwy o effaith bosibl ar rai grwpiau	Mae cyfres o negeseuon cyfathrebu i'r Uwch Wasanaeth Sifil a Phenaethiaid Canghennau wedi dangos yr angen am arweinyddiaeth a'r angen cynyddol i ystyried lles a llesiant staff	2	3	6	Gall unrhyw aelod staff sy'n dymuno gweithio mewn swyddfa am resymau llesiant wneud hynny ond mae'n rhaid iddo roi gwybod i'w reolwr llinell a'r Dirprwy Reolwr er mwyn gallu monitro lefelau defnydd swyddfeydd.	Cyfathrebu mewnol i hysbysu staff fel rhan o ymgyrch gyfathrebu pryd fydd swyddfeydd yn ailagor	2	2	4

**Gwybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'r gweithgaredd:**

<b>Aseswr:</b>	<b>Julie Carne</b>
<b>Uwch Swyddog Atebol:</b>	<b>Peter Kennedy</b>
<b>Dyddiad:</b>	<b>25 Mehefin 2020</b>
<b>Dyddiad Adolygu'r Asesiad:</b>	<b>4 Medi 2020</b>

## Matrics Sgoriau Risg

<b>Difrifoldeb y niwed</b>	<b>Tebygolrwydd o niwed</b>
1 Dim anaf	1 Annhebygol
2 Anaf bychan	2 Posibl
3 Anaf sydd angen sylw Meddyg neu Ysbyty	3 Tebygol
4 Anaf mawr	4 Tebygol iawn
5 Marwolaeth	5 Bron yn sicr

Mae'r Sgoriau Risg yn cael eu cyfrif drwy luosi'r tebygolrwydd o niwed gyda difrifoldeb y niwed

	Difrifoldeb y niwed →	
Tebygolrwydd o niwed ↓		
	5	
	4	
	3	
	2	
	1	

**Risg Uchel: 16 i 25** – Dylai gweithgareddau ddod i ben ar unwaith nes cyflwyno mesurau rheoli pellach i liniaru'r risg;

**Risg Ganolig: 9 i 15** – Dylid goddef y gweithgareddau am gyfnod byrdymor yn unig ac yna dim ond tra bod mesurau rheoli risg pellach i liniaru'r risg yn cael eu cynllunio a'u cyflwyno, o fewn cyfnod amser diffiniedig;

**Risg Isel: 1 i 8** - Derbyniol i raddau helaeth, yn amodol ar adolygiadau cyfnodol, neu ar ôl newid sylweddol